FFURFIO BARN MEWN ADOLYGIADAU

CYFLWYNIAD

Dylai pob cydadolygiad arwain at farn glir am berfformiad, ag iddi dystiolaeth gadarn. Dylai'r farn honno fod wedi'i hystyried yn ofalus, ac yn un y gall ystod eang o randdeiliaid - lleol a chenedlaethol - ei deall a gweithredu arni.

Bydd pob un o'r rhanddeiliaid hyn yn disgwyl, a hynny'n ddigon priodol, bod y farn derfynol yn gyson, wedi'i phrofi i'r eithaf ac yn cael ei dangos yn rhesymegol yn yr adroddiad a roddir i'r awdurdod lleol.

Sut yr eir ati i ffurfio barn

Nid cyfrwng i arolygu gwasanaethau penodol nac archwilio arferion unigol mo cydadolygiad.. Y bwriad yw cynnig trosolwg o berfformiad yr awdurdod cyfan ym maes gwasanaethau cymdeithasol drwy roi sylw arbennig i drawstoriad o'r sefydliad drwyddi draw, gan gysylltu profiad y defnyddwyr a gofalwyr â pholisïau a phenderfyniadau cynghorwyr ac uwch-reolwyr. Mae'n archwilio'r asesiad y mae'r awdurdod ei hun wedi'i wneud ac yn ei gymharu gyda'r profiad go-iawn ar lawr gwlad. Bydd adolygwyr yn trafod gyda staff ar bob lefel a chyda staff allweddol o'r prif sefydliadau sy'n bartneriaid i'r cyngor.

Mae'r adolygiad yn defnyddio ystod o dystiolaeth ansoddol a meintiol gan geisio egluro'r gwahaniaethau a'r bylchau yn yr hanes sydd ganddynt i'w ddweud. Mae'r 'dafell' hon yn cyd-fynd â'r gwerthusiad a'r craffu a wnaed gan eraill, megis AGCC a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru, ac mae hefyd yn ategu prosesau mewnol y corff o ran rheoli ei berfformiad. Diwedd y broses yw ffurfio barn gyffredinol sy'n llawn gwybodaeth, sy'n un y gall y cyhoedd ei deall a'i chymharu gydag awdurdodau eraill.

Ar bob cam o'r adolygiad, bydd y tîm yn mynegi barn dros dro am berfformiad yr awdurdod. Bydd y farn honno yn datblygu ac yn esblygu wrth i fwy o dystiolaeth gael ei chasglu a'i dadansoddi. Bydd ambell farn yn cael ei rhannu ar gyfnodau allweddol yn y broses, er mwyn rhoi ffocws i waith y tîm ac i roi cyfle i'r awdurdod lleol drafod y materion gyda hwy a rhoi tystiolaeth ychwanegol.

Pan fydd yr holl dystiolaeth wedi'i chasglu ac wedi'i darllen, bydd yn cael ei herio'n drwyadl gan y tîm cydadolygu a chan safonwyr profiadol cyn i'r casgliadau terfynol gael eu rhannu gyda'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Diben hyn yw sicrhau bod unrhyw farn a fynegir:

- yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ansoddol a meintiol;
- yn deillio o ddefnyddio methodoleg y cydadolygiad yn gywir;
- yn cael ei phrofi i'r eithaf yn erbyn meini prawf hysbys;
- yn bwrpasol, yn deg, yn gyson, yn seiliedig ar wybodaeth a heb ragfarn o unrhyw fath.

Mynegi barn a sicrhau ansawdd

Mae'r broses adolygu fel cyfanbeth wedi'i llunio i sicrhau bod y farn a fynegir gan y tîm yn cyrraedd y safonau hyn. At hynny, mae dulliau penodol o ddiogelu ansawdd, sef:

- bod y broses yn cael ei rheoli gan ddau gorff atebol a benodwyd yn briodol, sef AGCC a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru;
- bod y farn a fynegir yn cael ei safoni'n rheolaidd gan uwch-reolwyr o fewn y cyrff hyn;
- bod meini prawf tryloyw ar gyfer ffurfio barn;
- bod y farn yn cael ei mynegi gan adolygwyr sy'n atebol, sydd â'r profiad perthnasol ac sy'n cwrdd â'r safonau cymhwysedd sy'n ofynnol gan AGCC a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru;
- bod timau yn cael eu defnyddio sy'n cynnwys adolygwyr ac aseswyr lleyg sydd â'r sgiliau a'r safbwyntiau ategol;

- bod methodoleg gynhwysfawr yn cael ei defnyddio a honno'n cael ei rhoi ar waith yn gyson ac yn seiliedig ar arfer gorau;
- bod triongl o wybodaeth yn cael ei chasglu oddi wrth ystod eang o ffynonellau, drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau;
- proses o apelio sy'n deg ac awdurdodol.

Y farn gyffredinol

Mae'r farn gyffredinol yn golygu dod i gasgliadau ynghylch dau ddimensiwn allweddol o'r perfformiad:

- *Pa mor dda yw'r gwasanaethau?*
- *I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa dda i allu cynnal a gwella'r gwasanaethau?*

Mae'r naill ddimensiwn a'r llall yn cael eu mesur ar sail pedwar pwynt.

Pa mor dda yw'r gwasanaethau?	***I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa dda i allu cynnal a gwella'r gwasanaethau?***
Gwael	Mewn sefyllfa ddrwg
Anghyson	Mewn sefyllfa weddol ddrwg
Da yn bennaf	Mewn sefyllfa dda
Ardderchog	Mewn sefyllfa gryf

Mae'r farn yn cael ei mynegi drwy ddangos sefyllfa'r awdurdod ar fatrics perfformiad.

Ffigur 1 Matrics Perfformiad y Cydadolygiad



Mae'r matrics yn cyflwyno'r casgliadau cyffredinol hyn yn gyson ac yn glir. Mae'n gyfle i bobl gymharu eu cyngor gydag eraill ac mae'n cyfrannu at atebolrwydd gwleidyddol.

Y sail dros ffurfio barn

Mae pob dimensiwn yn cynnwys saith maes.

Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

Mynediad at wasanaethau
Asesu
Rheoli ac adolygu gofal
Ystod y gwasanaethau a ddarperir
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
Trefniadau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed
Llwyddiant o ran hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol

***I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa i gynnal a gwella'i berfformiad*?**

Y gweithlu
Rheoli perfformiad
Cynllunio a phartneriaethau
Comisiynu a chontractio
Adnoddau
Arweinyddiaeth a diwylliant
Cymorth corfforaethol a gwleidyddol a chraffu

Mae'r meysydd hyn yn cael eu hadlewyrchu ar bob cam o'r adolygiad ac maent yn strwythur cyffredin ar gyfer casglu tystiolaeth, ffurfio barn ac ysgrifennu adroddiadau.

Ar gyfer pob un o'r 14 maes, ceir yn y ddogfen hon (yn Atodiad 1):

- ddiffiniad o'r hyn sy'n cael ei fesur;
- meysydd posibl i'w harchwilio;
- y sail ar gyfer ffurfio barn.

Ffurfio barn

Bydd y tîm cydadolygu yn ffurfio barn am bob un o'r meysydd, gan ddefnyddio'r tabl o raddfeydd ar gyfer pob maes a chymhwyso'r sail berthnasol ar gyfer ffurfio barn. Er enghraifft, gall *mynediat at wasanaethau* gael ei raddio'n wael, anghyson, da yn bennaf neu wedi sefydlu ei hun yn dda ac yn effeithiol. Gall y *gweithlu* gael ei raddio mewn sefyllfa ddrwg (i gynnal a gwella'r gwasanaethau), mewn sefyllfa weddol ddrwg, mewn sefyllfa gymharol dda, neu mewn sefyllfa dda. Mae'r barnau unigol hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Mae'r farn gyffredinol ym mhob dimensiwn (ac felly'r lle ar y matrics) yn cael ei bennu yn y lle cyntaf drwy gasglu'r gwahanol farnau ym mhob un o'r saith maes perthnasol ar gyfer y dimensiwn hwnnw.

Serch hynny, gellir defnyddio ystod o ffactorau i safoni'r modd y defnyddir y system raddio i ffurfio'r farn gyffredinol. Er enghraifft, gellir rhoi mwy o bwys ar rai o'r pedwar maes ar ddeg, er mwyn sicrhau bod y farn am y ddau ddimensiwn yn adlewyrchu'n briodol naill ai ffactorau sy'n hanfodol i lwyddiant (fel systemau effeithiol i ddiogelu pobl agored i niwed) neu bryderon difrifol (fel gwendidau systemig neu wendidau sydd wedi ymwreiddio yn un o'r prif feysydd gwasanaeth nad eir i'r afael â hwy).

Byddai diffiniad o brif faes gwasanaethau yn cynnwys:

- y gwasanaethau plant
- y categorïau arferol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ym maes gwasanaethau oedolion (ee gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau ar gyfer plant ag anabledd dysgu, gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, etc).

Ni ellir cynnig diffiniad absoliwt ar gyfer pryderon difrifol. Er hynny, mae statudau a chanllawiau'r llywodraeth yn fan cychwyn pwysig. Dywed y protocol sy'n disgrifio sut y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymateb i bryderon difrifol am wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (Adran 3.10 yn y Llawlyfr) y gall y rhain gynnwys:

Arferion:

- methiant rheolaidd neu ddifrifol iawn i gyflawni gofynion statudol neu fethiant i ddilyn arweiniad heb gyfiawnhad priodol
- methiant i amddiffyn pobl agored i niwed rhag niwed gwirioneddol neu bosibl
- annhegwch sylweddol wrth ddelio ag unigolion y mae ganddynt hawl i dderbyn gwasanaeth
- tanberfformio'n gyson mewn perthynas â dangosyddion allweddol

Staffio a rheoli:

- prinder staff mewn swyddi allweddol
- diffyg arweiniad a phrosesau rheoli ansawdd effeithiol
- methiant i ymateb i bryderon a godwyd gan AGCC neu gyrff tebyg, neu i gymryd camau unioni o ganlyniad i dderbyn cwyn gyfiawn
- ymgais fwriadol gan uwch-reolwyr i gamarwain neu gamhysbysu

Polisi

- gwahaniaethu annheg
- achos amlwg lle na chydymffurfir â'r arweiniad

Cysylltiadau allanol:

- y berthynas waith â phartneriaid allweddol yn torri i lawr
- cyhoeddusrwydd andwyol difrifol a chyson sy'n debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth.

Beth bynnag y bo'r gwasanaeth o dan sylw, bydd y cydadolygiad yn ystyried a yw'r gwendidau:

- yn beryglus
- yn systematig (hy nad ydynt yn digwydd o ganlyniad i farn unigolion yn unig)
- yn eang (hy yn ymwneud â mwy nag un tîm neu uned)
- yn barhaus (hy yn para dros nifer o fisoedd)
- yn gyfredol (hy heb eu datrys eto).

Datrys anghydfodau

Cwmpas

Yn yr adran hon mae gweithdrefn ar gyfer delio ag achosion lle mae awdurdod lleol yn herio un neu fwy o ganfyddiadau neu farnau'r adolygiad.

Mae'r weithdrefn ar gyfer delio â chwynion am sut y cynhaliwyd adolygiad neu am adolygydd mewn papur ar wahân. Weithiau bydd achosion lle mae her i ganfyddiad neu farn yn seiliedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gŵyn am ymddygiad. Mewn achos o'r fath, rhaid i'r ddwy weithdrefn gael eu rhoi ar waith ar y cyd.

Y broses arferol

Bydd yr adolygydd arweiniol yn paratoi'r adroddiad a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad ac yn amodol ar safoni mewnol ac allanol ac is-olygu. Yna bydd y cydgysylltydd cymorth adolygu yn anfon yr adroddiad drafft i'r awdurdod lleol (y prif weithredwr a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol) am eu sylwadau ar faterion yn ymwneud â chywirdeb ac y gall fod angen eu cadarnhau. Gofynnir i'r

awdurdod lleol gyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn pen cyfnod penodol.

Bydd yr adolygydd arweiniol yn ystyried unrhyw sylwadau a bydd yn:

- cywiro unrhyw wallau ffeithiol;
- darparu unrhyw eglurhad angenrheidiol;
- ceisio datrys unrhyw faterion eraill heb newid canfyddiadau'r tîm fel y cytunwyd arnynt ac fel y'u safonwyd.

Fel y bo'n briodol, gall yr adolygydd arweiniol ofyn am fwy o dystiolaeth gan yr awdurdod lleol neu drafod ymhellach gyda'r awdurdod lleol sylwedd y pwyntiau a godwyd. Hefyd, gall yr adolygydd arweiniol, fel y bo'n briodol, drafod gyda'r tîm adolygu a'r safonwr a'r rheolwyr arweiniol unrhyw bwynt a godwyd gan yr awdurdod lleol a all gyfiawnhau newid y canfyddiadau.

Ni all yr adolygydd arweiniol wneud unrhyw newid sylweddol i'r canfyddiadau neu i'r farn a ffurfiwyd heb gytundeb y safonwr neu'r rheolwyr arweiniol.

Bydd yr adolygydd arweiniol yn hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw newidiadau a wnaed i'r adroddiad yng ngoleuni sylwadau'r awdurdod lleol.

Herio'r farn a ffurfiwyd

Os bydd yr awdurdod lleol yn herio unrhyw rai o farnau swyddogol yr adolygiad (o dan bob maes neu'r tabl sy'n cynnwys y farn gyffredinol), bydd yr adolygydd arweiniol yn egluro wrth yr awdurdod lleol ar ba sail y cafodd y farn ei ffurfio a bydd yn ystyried y rhesymau a roddir gan yr awdurdod lleol dros newid y farn honno. Os bydd yr adolygydd arweiniol yn ystyried y dylai'r farn sefyll dylai roi gwybod i'r awdurdod lleol am hynny.

Os bydd yr adolygydd arweiniol yn credu y gallai fod cyfiawnhad dros newid dylai drafod hyn gyda'r safonwr. Os bydd yr adolygydd arweiniol a'r safonwr (ar ôl unrhyw drafodaeth briodol gydag aelodau eraill y tîm adolygu) yn cytuno bod cyfiawnhad dros y newid, dylai'r adolygydd arweiniol roi gwybod i'r awdurdod lleol.

Herio ymhellach

Os yw'r awdurdod lleol yn dal i wrthod canfyddiadau'r adolygiad neu'r farn a fynegir, dylid ei wahodd i nodi'n ysgrifenedig ar ba sail y mae'n anghytuno. Bydd y rheolwyr arweiniol yn ystyried y rhesymau hyn ac yn gwneud penderfyniad terfynol. Bydd y rheolwyr arweiniol yn rhoi gwybod i'r awdurdod am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

Mynediad at Wasanaethau

Beth sy'n cael ei fesur?

Sut y mae'r awdurdod yn hybu mynediad at wasanaethau ymhlith pawb sy'n gymwys i'w defnyddio.

Meysydd i'w harchwilio

1. Darparu gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau, meini prawf bod yn gymwys, blaenoriaethu a'r broses asesu.
2. Ymdrechion i ymdrin â'r rhwystrau i fynediad ar gyfer y rheiny sydd ag anabledd neu yr effeithir arnynt gan ffactorau megis daearyddiaeth, dewis iaith neu allgáu cymdeithasol (gan gynnwys trefniadau mynediad ar y cyd, gwaith maes a chyswllt electronig).
3. Cynnwys defnyddwyr a gofalwyr wrth werthuso a gwella gwybodaeth a threfniadau mynediad.
4. Y rhwydwaith cyfeirio.
5. Bod ar ddyletswydd a systemau eraill i dderbyn ymholiadau gan ffynonellau posibl (gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa).
6. Derbyn achosion a gyfeiriwyd (gan gynnwys nodi pryderon/anghenion yn gywir a chael gwybodaeth sy'n berthnasol).
7. Y broses sgrinio (gan gynnwys penderfyniad clir ynglŷn â blaenoriaethu ymateb, bodolaeth meini prawf ar gyfer pwy sy'n gymwys a'r defnydd a wneir ohonynt).
8. Yr ymateb (gan gynnwys canlyniad clir megis ymyrryd mewn argyfwng).
9. Gwaith asesu heb ei rannu a rheoli rhestri aros.
10. Systemau monitro effeithiolrwydd y trefniadau mynediad.

Cysyniadau allweddol

Ymateb i anghenion; cydgysylltu; prydlondeb; dibynadwyaeth; cysondeb; tegwch; grymuso; gweithredu mewn modd cynhwysol; risg sydd wedi'i reoli'n dda; i ba raddau y cydymffurfir â safonau a fframweithiau cenedlaethol.

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A oes gwybodaeth gynhwysfawr a hwylus yn cael ei darparu, ym mhob iaith a fformat perthnasol, i'r cyhoedd am yr holl wasanaethau?
- A oes rhwydweithiau atgyfeirio effeithiol gyda chyrff a mudiadau eraill?
- A oes yna drefniadau hwylus, dibynadwy a hysbys i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio i gysylltu â'ch gwasanaethau yn ystod oriau gwaith ac wedi oriau gwaith?
- A ydych chi'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ymholwyr ac atgyfeirwyr mewn ffordd sy'n sensitif i'w hanghenion?
- A oes unrhyw oedi yn digwydd wrth wneud cyswllt neu a oes unrhyw fwlch yn y broses o gysylltu?

Asesu

Beth sy'n cael ei fesur?

Sut y mae defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr yn derbyn asesiad sy'n amserol ac sy'n cydymffurfio â'r arweiniad perthnasol o ran cynnwys ac ansawdd.

Meysydd i'w harchwilio

1. A yw'r asesiad yn cael ei gwblhau o fewn yr amser a bennwyd ac a ydyw'n cael ei ddiweddaru fel y bo angen?
2. A yw'n cydymffurfio â fframweithiau cenedlaethol neu arweiniad perthnasol arall (gan gynnwys defnyddio systemau i benderfynu pwy sy'n gymwys).
3. Casglu gwybodaeth (gan gynnwys barn defnyddwyr gwasanaethau eu hun, mynediad at ffynonellau perthnasol o wybodaeth, trefniadau i fanteisio ar arbenigedd a chyfraniad gan weithwyr proffesiynol eraill).
4. Dadansoddiadau ar sail gwybodaeth (gan gynnwys asesu a rheoli risg, materion yn ymwneud â chydraddoldeb).
5. Protocolau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys trefniadau ar y cyd.
6. Asesiadau sy'n cael eu rhannu â defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr.
7. Rhestri aros ar gyfer asesiad a rheoli rhestri aros.
8. Systemau monitro effeithiolrwydd y trefniadau asesu.

Cysyniadau allweddol

Canolbwyntio ar ganlyniadau; cyfranoldeb; cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; prydlondeb; cydgysylltu; effeithlonrwydd;

tegwch; ymateb i anghenion; cysondeb; risg sydd wedi'i reoli'n dda; i ba raddau y cydymffurfir â safonau a fframweithiau cenedlaethol.

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A oes yna systemau clir ac effeithiol i bennu blaenoriaethau a phenderfynu pwy sy'n gymwys?
- A yw asesiadau yn cael eu cwblhau o fewn yr amser a bennwyd ac a ydynt yn cael eu diweddaru fel y bo angen?
- A yw gofalwyr yn cael eu hasesu?
- A oes arbenigedd ar gael ar gyfer yr asesiad (ee therapydd galwedigaethol, staff meddygol/nyrsio, yr heddlu)
- Ansawdd a chynnwys asesiadau yn unol â'r arweiniad.

Rheoli ac adolygu gofal

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau

- **y mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau gynllun gofal ysgrifenedig sydd wedi'i seilio ar yr asesiad, sy'n pennu pa wasanaethau sydd i'w darparu a'r hyn y bwriedir iddo gael ei gyflawni ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion a risg a nodwyd**
- **y mae cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n effeithiol ar yr adegau a bennwyd/a gytunwyd**

Meysydd i'w harchwilio

1. Cynnwys y cynlluniau (gan gynnwys ansawdd y cynlluniau gofal, i ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynnwys, cynllunio tuag at ganlyniadau a bennwyd).
2. Cyswllt â gwasanaethau a ddarperir (gan gynnwys bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael/y bylchau yn y gwasanaethau, cyswllt â darparwyr y gwasanaethau, adnoddau ar gyfer y cynlluniau gofal).
3. Prosesau rheoli gofal (gan gynnwys dyraniadau a llwyth gwaith priodol, rheoli risg, cyfraniad parhaus defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, eglurder wrth wneud penderfyniadau, dod ag achosion i ben fel y bo'n briodol ac ar yr adeg briodol).
4. Systemau adolygu cynlluniau gofal (gan gynnwys prydlondeb, cynnwys ac ansawdd, gwerthuso cynlluniau a'u gweithredu, cynnwys defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr, osgoi oedi).
5. Achosion heb eu neilltuo, achosion sy'n aros ac achosion nad ydynt yn weithredol.
6. I ba raddau y mae cydweithio ag asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill yn digwydd, gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol ddisgyblaethau ac asiantaethau.

7. Y trefniadau i drosglwyddo achosion rhwng timau, meysydd gwasanaeth ac is-adrannau (yn arbennig ar adegau trosiannol arbennig).
8. Y cyfathrebu sy'n digwydd rhwng y rheolwr achosion a'r defnyddiwr gwasanaeth/gofalwr.
9. Cydymffurfio â gofynion statudol, rheoliadau a'r arweiniad a baratowyd.
10. Cysylltiadau rhwng asesiadau, cynlluniau, gwasanaethau a chanlyniadau (a nodwyd ac a gyflawnwyd).
11. Effeithiolrwydd cofnodi achosion a'r defnydd a wneir o ffeiliau achosion.

Cysyniadau allweddol

Canolbwyntio ar ganlyniadau; cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; prosesau amserol; effeithlonrwydd; cyfateb anghenion a gwasanaethau; gwaith wedi'i gydgysylltu ar draws gwahanol asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau; risg sydd wedi'i reoli'n dda; cyfraniad cyson gan ymarferwyr; rheoli llwyth gwaith; i ba raddau y cydymffurfir â safonau a fframweithiau cenedlaethol.

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- Dyrannu a rheoli'r holl achosion cyfredol fel y bo'n briodol.
- A oes yna gynllun gofal ysgrifenedig ar gyfer pob achos cyfredol sy'n disgrifio'r gwasanaethau rydych am eu darparu a'r canlyniadau rydych am eu gweld?
- A oes adnoddau ar gyfer elfen wasanaethau'r cynlluniau gofal, a yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu costio ac a ydynt yn cael eu darparu?
- A yw achosion yn cael eu hadolygu ar yr adegau a gytunwyd/a bennwyd?
- Ansawdd a chynnwys yr adolygiadau.

Ystod y gwasanaethau a ddarperir

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae defnyddwyr yn derbyn gwasanaethau sydd:

- **yn diwallu anghenion a aseswyd**
- **yn eu cadw'n ddiogel**
- **yn eu helpu i fyw mewn lleoliad priodol**
- **yn hyrwyddo annibyniaeth a dewis.**

Meysydd i'w harchwilio

1. Ystod a chwmpas y gwasanaethau sydd ar gael (gan gynnwys dewis, hyblygrwydd, costau ac anghenion nas diwallwyd).
2. Dyrannu gwasanaethau (gan gynnwys mynediad, targedu, cyfateb, trothwyau gwasanaethau, cydgysylltu ag asiantaethau a darparwyr gwasanaethau eraill, cyllid a thaliadau).
3. Sicrhau hyblygrwydd gwasanaethau o gwmpas anghenion defnyddwyr (gan gynnwys darparu gwybodaeth am wasanaethau, prosesau cyflwyno).
4. Y berthynas â strategaethau a dangosyddion perfformiad allweddol (gan gynnwys adeiladau/lleoliadau, ailalluogi, gofal canolraddol).
5. Y gwasanaethau sydd ar gael a pha mor gyflym y gellir eu darparu.
6. Defnyddio'r systemau yn deg er mwyn cyfyngu ar y defnydd a wneir o wasanaethau.
7. Rheoli'r broses o derfynu'r gwasanaethau a ddarperir neu eu diwygio.
8. Pa mor ymwybodol yw defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o'r opsiynau sydd ar gael o ran y gwasanaethau a ddarperir.

Cysyniadau allweddol

Diwallu anghenion; y gwasanaethau sydd ar gael; hyblygrwydd; dewis; y gost; dyrannu'n deg; anghenion nas diwallwyd; gweithio mewn partneriaeth; cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A yw'r gwasanaethau iawn ar gael i ddiwallu'r angen a asesir?
- Yr hyn a wnaed wrth ddatblygu partneriaethau gyda chyrff eraill er mwyn darparu gwasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau integredig ac arbenigol)
- Presenoldeb diffygion sylweddol / oedi / costau gormodol wrth ddarparu gwasanaethau
- A yw'r gwasanaethau'n hyblyg i ateb gofynion y defnyddwyr?

Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r safonau gofal gofynnol mewn perthynas ag anghenion ac amgylchiadau unigol.

Meysydd i'w harchwilio

1. Y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a chysondeb (gan gynnwys ymateb i broblemau ac argyfyngau).
2. Ansawdd y gwasanaethau ac ansawdd y gofal (gan gynnwys safonau penodol, i ba raddau y maent yn cydymffurfio â safonau perthnasol, parch at amgylchiadau ac anghenion unigol).
3. Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu sut y caiff gwasanaethau eu darparu (gan gynnwys systemau i ddelio â chwynion, sylwadau a chanmoliaeth).
4. Y canlyniadau y disgwylir eu gweld i ddefnyddwyr gwasanaethau (gan gynnwys amcanion a wireddwyd, anghenion a ddiwallwyd, newid mewn amgylchiadau).
5. Systemau sicrhau ansawdd.
6. I ba raddau y mae gwasanaethau yn sensitif i wahanol ddiwylliannau ac yn parchu amrywiaeth o ran hil, crefydd a dewis iaith.
7. I ba raddau y mae gwasanaethau yn rhoi grym i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr (yn unigol ac ar y cyd â'i gilydd) ac yn annog lefelau priodol o annibyniaeth.

Cysyniadau allweddol

Prydlondeb; cysondeb; pa mor ddibynadwy ydynt; ansawdd gofal; canolbwyntio ar ganlyniadau a galluogi; grymuso defnyddwyr

gwasanaethau a gofalwyr; sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth; datrys problemau; cydymffurfio â safonau cenedlaethol

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A yw'r gofal sy'n cael ei roi o safon ddibynadwy ac yn parchu anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn?
- A yw defnyddwyr a gofalwyr yn cyfrannu at gynllunio, dewis a dylunio gwasanaethau?
- A yw'r gwasanaethau yn gallu ymateb i broblemau ac argyfyngau?
- A ydych yn croesawu cwynion, sylwadau a chanmoliaeth ac a ydych yn eu defnyddio i wella'r gwasanaethau?
- A ydych yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol o dan y Ddeddf Safonau Gofal?

Trefniadau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed

Beth sy'n cael ei fesur?

Effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu pobl agored i niwed a rheoli risg.

Meysydd i'w harchwilio

1. Sut yr ymatebir i honiadau o gam-drin neu esgeulustod (gan gynnwys yn ystod oriau y tu allan i oriau swyddfa, asesiadau amlddisgyblaethol, coladu pryderon sy'n codi mewn gwahanol fannau ar wahanol adegau).
2. Sut y rheolir risg a niwed (gan gynnwys y modd y gweithredir y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn gyson o fewn y gwasanaethau cymdeithasol a'r amryw asiantaethau niferus eraill).
3. A oes gwasanaethau'n cael eu darparu sy'n diogelu'n briodol bobl agored i niwed (gan gynnwys diffygion o fewn gwasanaethau).
4. Cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o wneud penderfyniadau (gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigol, y defnydd a wneir o wasanaethau eiriolaeth).
5. Effeithiolrwydd cyrff diogelu rhyng-asiantaethol yn arbennig mewn perthynas â grwpiau agored i niwed.
6. Gwasanaethau y tu allan i oriau sy'n gallu ymateb i argyfyngau heb danseilio annibyniaeth.
7. Y rhagofalon sy'n rhan o'r prosesau recriwtio a dethol.
8. Systemau gwerthuso arferion a'r broses o rannu gwybodaeth.

Cysyniadau allweddol

Y gallu i ymateb; asesu a rheoli risg yn effeithiol; cysondeb; cydgysylltu ymatebion amlddisgyblaethol; arbenigedd a barn;

cydymffurfio â gweithdrefnau; ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau;

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A oes yna drefniadau effeithiol a chytûn gydag asiantaethau eraill i ddelio â chategorïau risg mawr?
- A ydych yn asesu risg wrth gynnal asesiadau?
- Pa mor effeithiol yw'r systemau i ymateb yn gyflym i argyfyngau (gan gynnwys wedi oriau gwaith)?
- Pa mor effeithiol yw'r systemau i grynhoi pryderon sy'n codi mewn mannau gwahanol ar adegau gwahanol?
- Y gallu i ddysgu o brofiad pan fydd pethau'n mynd go chwith.

Llwyddiant i hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn medru cyflawni'r canlyniadau gorau posibl yn gymdeithasol, o ran annibyniaeth, goresgyn rhwystrau i gynhwysiant a datblygu galluoedd.

Meysydd i'w harchwilio

1. Cymorth i bobl aros yn y gymuned neu o fewn y teulu (gan gynnwys cymorth i ofalwyr).
2. Gwella ansawdd yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol (gan gynnwys y cyfleoedd a geir i gymysgu'n gymdeithasol, grymuso, chwalu'r rhwystrau at gyfrannu).
3. Gwasanaethau i leihau dibyniaeth a thrafferthion cymdeithasol (gan gynnwys cyflogaeth, cyfleoedd addysg a hyfforddiant, gwneud y defnydd gorau o incwm, taliadau uniongyrchol).
4. Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys gwaith i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau posibl sy'n perthyn i grwpiau anodd eu cyrraedd.
5. Ymdrechion i brif ffrydio'r gwasanaethau a ddarperir.
6. Y perfformiad mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'r defnydd cytbwys a wneir o ofal sefydliadol.

Cysyniadau allweddol

Annibyniaeth; cyfle cyfartal amrywiaeth; grymuso; cyfleoedd bywyd; cefnogi cymunedau; ailalluogi; normaleiddio

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A ydych yn llwyddo i gefnogi pobl yn eu cymunedau neu gyda'u teuluoedd, yn hytrach nag mewn gofal preswyl neu sefydliad?
- Pa mor effeithiol yw'r cymorth a roddir i ofalwyr?
- A ydych yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi hwb i annibyniaeth ac yn datblygu sgiliau byw?
- A ydych yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eich gwasanaethau, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd?
- A oes taliadau uniongyrchol ar gael ac a yw pobl yn eu defnyddio?

Gweithlu

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae'r awdurdod yn recriwtio ac yn defnyddio nifer digonol o staff a gofalwyr sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n briodol i ymgymryd â'u swyddogaethau penodol.

Meysydd i'w harchwilio

1. Strategaeth ar gyfer y gweithlu neu adnoddau dynol o ran y gwasanaethau cymdeithasol ac ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd.
2. Y modd y defnyddir aelodau'r staff a'r sgiliau sydd ganddynt.
3. Recriwtio a chadw.
4. Datblygu a hyfforddi staff, gan gynnwys dadansoddi'r anghenion hyfforddi ac i ba raddau y maent yn ennill cymwysterau perthnasol.
5. Polisïau a gweithdrefnau personél.
6. Partneriaethau i ddatblygu gweithlu adnoddau dynol a gofal cymdeithasol.
7. Lledaenu codau ymarfer y Cyngor Gofal a chydymffurfio â hwy.
8. Y gwaith a wnaed hyd yma yn cofrestru staff cymwys gyda'r Cyngor Gofal ac i ba raddau y cyflawnwyd y gwaith.
9. Cysylltiadau diwydiannol.

Cysyniadau allweddol

Data cynhwysfawr a dibynadwy; ffurfio a gweithredu strategaethau yn effeithiol; canlyniadau y disgwylir eu gweld ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau; cyfraniad rhanddeiliaid; ymgysylltu â blaenoriaethau a chynlluniau cenedlaethol; gweithio ar lefel gorfforaethol; cymharu â pherfformiad awdurdodau tebyg

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A ydych chi'n gallu recriwtio a chadw digon o staff sydd â'r cymwysterau a'r profiadau priodol?
- A yw'r staff (o bob disgyblaeth ac ar bob graddfa) yn cael eu datblygu'n effeithiol ac a yw eu cymwyseddau yn cael eu gwella/cadarnhau?
- Unrhyw gymwysterau perthnasol a gafodd aelodau'r staff.
- A oes gennych strategaeth gweithlu tymor hir ar gyfer y sector cyfan?
- A ydych yn datblygu partneriaethau i ddatblygu gweithlu adnoddau dynol a gofal cymdeithasol?
- A ydych yn lledaenu codau ymarfer y Cyngor Gofal ac yn cadw atynt?
- A ydych chi'n cofrestru staff cymwys gyda'r Cyngor Gofal?

Rheoli perfformiad

Beth sy'n cael ei fesur?

Gallu'r awdurdod i reoli perfformiad mewn ffyrdd sy'n sicrhau safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau a gwella gwasanaethau.

Meysydd i'w harchwilio

1. Arferion a safonau gwasanaethau a systemau i'w monitro.
2. Systemau goruchwylio ac arfarnu.
3. Pa mor aml y cynhelir archwiliadau achos ac ymarferion sicrhau ansawdd eraill.
4. Monitro perfformiad ar sail y targedau a'r dangosyddion perfformiad, defnyddio systemau gwybodaeth sy'n ddigonol at y diben.
5. System cwynion a sylwadau, gan gynnwys ei defnyddio i nodi ac unioni diffygion yn y gwasanaeth.
6. Cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr at y broses o ddatblygu safonau a monitro perfformiad.
7. Alinio'r agendâu, y systemau a'r prosesau corfforaethol a rhai'r gwasanaethau cymdeithasol.
8. Canfyddiadau'r adolygiad/arolygiad a'r ymatebion a wnaed.
9. Cynllunio busnes neu weithredol a systemau i fonitro perfformiad yn erbyn amcanion neu dargedau.
10. Cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol neu dargedau allweddol
11. Systemau TGCh.

Cysyniadau allweddol

Safonau, targedau, archwilio, sicrhau ansawdd, cydymffurfio, atebolrwydd, cyfraniad rhanddeiliaid; tystiolaeth o welliannau.

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- Pa ddefnydd sy'n cael ei wneud o systemau goruchwylio ac arfarnu effeithiol a chynhwysfawr?
- Effeithiolrwydd archwiliadau achos ac arferion sicrhau ansawdd eraill wrth nodi cryfderau a gwendidau ac wrth hybu gwelliannau.
- Monitro perfformiad yn rheolaidd gan ddefnyddio systemau gwybodaeth reoli sy'n addas at y diben.
- Presenoldeb safonau sylfaenol clir ar gyfer arferion/gwasanaethau a ddarperir, targedau a dangosyddion perfformiad clir.
- Presenoldeb systemau effeithiol ar gyfer manylebau contractau, y gwaith o'u monitro a sicrhau cydymffurfiaeth.
- A yw eich systemau cwynion a sylwadau yn gweithio'n dda at bwrpas nodi ac unioni diffygion yn y gwasanaeth?

Cynllunio a phartneriaethau

Beth sy'n cael ei fesur?

Gallu'r awdurdod i lunio'r patrwm a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu drwy ffurfio a gweithredu cynlluniau, yn fewnol a hefyd gyda rhanddeiliaid allweddol.

Meysydd i'w harchwilio

1. Strwythurau a phrosesau cynllunio gan gynnwys ymgysylltu â'r holl randdeiliaid mwyaf.
2. Cysylltiadau â chynlluniau cymunedol a strategaethau corfforaethol.
3. Dadansoddiad o'r angen a'r gofynion o ran y gwasanaeth.
4. Cynlluniau/strategaethau ar gyfer gwasanaethau ac i ba raddau y cawsant eu seilio ar dystiolaeth.
5. Cyflawni goblygiadau cynllunio statudol.
6. Cysylltiadau rhwng cynlluniau strategol neu wasanaeth yn y tymor hwy a chynlluniau gweithredol neu fusnes.
7. Cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr at y broses o gynllunio a datblygu gwasanaethau.
8. Gwelliannau i wasanaethau neu newid patrymau gwasanaethau mewn ymateb i gynlluniau.

Cysyniadau allweddol

Dadansoddi angen; gweithio ar y cyd; ffurfio strategaeth; canlyniadau y disgwylir eu gweld o'r gwasanaethau; cysylltu cynlluniau ar wahanol haenau; cynnwys defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr; ymgysylltu â blaenoriaethau a chynlluniau cenedlaethol;

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A oes gan yr holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys eich staff a defnyddwyr a gofalwyr, gyfle i gyfrannu'n effeithiol at eich trefniadau a'ch prosesau cynllunio?
- A yw eich cynlluniau ar gyfer eich gwasanaethau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ofynion y gwasanaethau ac ar angen?
- A ydych yn ysgwyddo eich ymrwymiadau statudol o ran cynllunio?
- A oes cysylltiadau clir rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaethau?
- Effeithiolrwydd cynlluniau gweithredol neu fusnes i arwain rheolwyr gwasanaethau ac aelodau eraill o'r staff wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Gweithio mewn ffordd strategol wrth ymdrin â phartneriaethau sy'n canolbwyntio ar gyflwyno polisïau, cynlluniau a mentrau allweddol.
- Gwaith partneriaeth effeithiol ar lefel strategol a lefel weithredol.

Comisiynu a chontractio

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae arferion comisiynu a chontractio'r awdurdod yn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu gan y darparwr mwyaf priodol a'u bod yn cynnig y gwerth gorau.

Meysydd i'w harchwilio

1. Ystod y strategaethau comisiynu sydd i'w cyhoeddi a'u gweithredu gan yr awdurdod.
2. Cysylltiadau â chynlluniau strategol a chynlluniau gwasanaethau.
3. Mynediad at wybodaeth am broffiliau angen/galw ac ystod yr opsiynau sydd ar gael o ran y gwasanaethau.
4. Trefniadau i ystyried partneriaethau posibl o fewn yr awdurdod a rhwng awdurdodau ac asiantaethau eraill, gan gynnwys y sector annibynnol.
5. Comisiynu strategol ledled y gwasanaeth sy'n cyfateb i'r anghenion a'r adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau o'r gwerth gorau.
6. Trefniadau contractio, monitro ac adolygu gwasanaethau (gan gynnwys y rheiny a ddarperir yn fewnol) a chysylltiadau â rheoli perfformiad.
7. Polisïau caffael corfforaethol a'r defnydd a wneir o safonau arferion gorau.
8. Y berthynas â darparwyr gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol.
9. Cynlluniau buddsoddi ar y cyd â phartneriaid allweddol.
10. Systemau i werthuso effeithiolrwydd strategaethau comisiynu.

Cysyniadau allweddol

Dadansoddi angen; mapio'r farchnad; rheoli'r cyflenwad a'r galw; y gost; monitro; cael rhanddeiliaid i gymryd rhan; gweithredu'r strategaeth; gwerth gorau; hyblygrwydd; tegwch; yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; trefniadau ar y cyd; meincnodi

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- Mynediad at wybodaeth am broffiliau angen/galw ac ystod yr opsiynau sydd ar gael o ran y gwasanaethau.
- Dadansoddiadau o systemau sy'n rhoi gwybodaeth am feysydd hanfodol ymyrraeth a rheolaeth/arferion effeithiol.
- A oes gennych drefniadau i wneud yn siwr bod y posibilrwydd o greu partneriaethau o fewn a rhwng awdurdodau a chydag asiantaethau eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol, yn cael ei ystyried bob tro?
- A ydych yn comisiynu ar lefel strategol ar draws y gwasanaeth ac yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion ac adnoddau i ddarparu gwasanaethau gwerth gorau?
- A ydych yn gallu contractio, monitro ac adolygu gwasanaethau, gan gynnwys rhai mewnol, yn effeithiol?

Adnoddau

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae gan yr awdurdod drefniadau cadarn i reoli adnoddau, gan gynnwys cyllid ac asedau.

Meysydd i'w harchwilio

1. Statws ariannol cyffredinol yr awdurdod.
2. Cynllunio ariannol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol sy'n cysylltu dyletswyddau statudol, polisïau a blaenoriaethau corfforaethol, dyrannu adnoddau, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau.
3. Prosesau gosod cyllidebau a thystiolaeth o gyllidebau'n cael eu hailalinio.
4. Strategaethau rheoli asedau.
5. Trefniadau i reoli cyllidebau (gan gynnwys cynlluniau dirprwyo, systemau monitro a gwybodaeth ariannol, cymorth i ddeiliaid cyllideb).
6. Y trefniadau ar gyfer codi tâl a chasglu incwm.
7. Neilltuo adnoddau ar gyfer gwasanaethau a meysydd gwasanaeth unigol mewn perthynas ag asedau a chyfleusterau.
8. Y defnydd a wneir o wybodaeth am gostau unedau cymharol a chostau cynlluniau gofal unigol.
9. Arferion i wella'r modd y darperir gwerth gorau.
10. Ymwybyddiaeth ymhlith y staff ynghylch eu cyfrifoldeb dros reoli adnoddau.

Cysyniadau allweddol

Cynaliadwyedd; atebolrwydd; blaenoriaethu; dirprwyo; gwneud y defnydd mwyaf o incwm; hyblygrwydd; gwybodaeth gynhwysfawr a dibynadwy (ee ymrwymiadau, rhagolygon); ffurfio a gweithredu

strategaethau yn effeithiol; canlyniadau y disgwylir eu gweld ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau; cyfraniad rhanddeiliaid; ymgysylltu â blaenoriaethau a chynlluniau cenedlaethol; gweithio ar lefel gorfforaethol

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A yw penderfyniadau a wnaed wrth ddyrannu adnoddau (gan gynnwys y rhaglen cynlluniau cyfalaf) wedi'u cysylltu'n effeithiol â chynlluniau gwasanaethau a blaenoriaethau strategol?
- A oes digon o adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer gwasanaethau o ran asedau a chyfleusterau er mwyn cyflawni ymrwymiadau statudol yr awdurdod a'r blaenoriaethau a nodwyd?
- Y gallu i ysgwyddo ymrwymiadau a chadw at gyllidebau?
- Y gallu i ymateb yn brydlon i unrhyw newid sydyn yn y galw am wasanaethau?
- A yw'r systemau sy'n gysylltiedig â bod yn gyfrifol am gyllidebau datganoledig a'u rheoli yn effeithiol?
- A ydych yn cymryd camau effeithiol i wella gwerth eich gwasanaethau?
- A yw'r broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys adolygiad trylwyr o'r anghenion gwario cyfredol ac yn y dyfodol.

Arweinyddiaeth a diwylliant

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae rheolwyr a staff gwasanaethau cymdeithasol yn gallu dangos eu bod yn medru cyflawni'n effeithiol eu cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn unigol ac ar y cyd.

Meysydd i'w harchwilio

1. Trefniadau strwythurol gan gynnwys eglurhad ynglŷn â rolau, cyfrifoldebau a dirprwyo gwaith.
2. Bodolaeth egwyddorion allweddol a nodau ac amcanion cytûn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys dadansoddiad cywir o'r cryfderau cyfredol a'r meysydd i'w datblygu) a'r dull o'u cyfathrebu.
3. Y diwylliant rheoli ac a oes gan uwch-reolwyr fodel o weithio ac o drin pobl sy'n cael ei adlewyrchu mewn ffordd briodol ym mhob rhan o'r corff hyd at fan darparu'r gwasanaeth.
4. Y gallu i arwain gan gynnwys rheoli ar lefel broffesiynol a busnes a'r gallu i gyflawni rolau statudol.
5. A yw'r broses o reoli newid yn cael ei harwain yn dda er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ar gyflymdra priodol?
6. Y defnydd a wneir o wybodaeth reoli a chynllunio prosiectau er mwyn gwireddu'r newidiadau arfaethedig.
7. Yr ymateb i werthusiadau allanol a thystiolaeth o broblemau.
8. Morâl staff a'u rhan yn y broses o wella gwasanaethau.
9. Y berthynas â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys asiantaethau sy'n bartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau.

Cysyniadau allweddol

Y diwylliant o fewn y sefydliad; rhoi arweiniad; ffurfio a gweithredu strategaethau yn effeithiol; rheoli newid a phrosiectau; y gallu i ymateb; cyfraniad rhanddeiliaid; cyfathrebu; ymgysylltu â blaenoriaethau a chynlluniau cenedlaethol; gweithio ar lefel gorfforaethol

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- Bodolaeth egwyddorion allweddol a nodau ac amcanion cytûn ar gyfer eich adran/cyfarwyddiaeth/is-adran sy'n cael eu cyfleu yn eglur.
- A yw pawb yn glir ynghylch rolau, cyfrifoldebau, gwaith wedi'i ddirprwyo a threfniadaeth?
- A oes gan uwch-reolwyr fodel o weithio ac o drin pobl sy'n cael ei adlewyrchu mewn ffordd briodol ym mhob rhan o'r corff hyd at fan darparu'r gwasanaeth?
- Y gallu i arwain gan gynnwys rheoli ar lefel broffesiynol a busnes a'r gallu i gyflawni rolau statudol.
- A yw eich corff yn briodol o sefydlog ac a yw'r dulliau o arwain newid yn cael eu rheoli'n dda?
- A yw cynlluniau, gan gynnwys adolygiadau ac addasiadau, yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol?
- A yw adolygiadau yn cael eu targedu ar sail hunanwerthusiad ac a ydynt yn drylwyr o ran yr her y maent yn eu cynnig, cymariaethau, profion ynglŷn â pha mor gystadleuol ydynt ac ymgynghori?

Cefnogaeth a chraffu corfforaethol a gwleidyddol

Beth sy'n cael ei fesur?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd yn cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a blaenoriaethau statudol ym maes gwasanaethau cymdeithasol

Meysydd i'w harchwilio

1. Y cysylltiadau rhwng nodau'r gwasanaeth a nodau corfforaethol, pennu cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol.
2. Effaith trefniadau rheoli corfforaethol ar reoli'r gwasanaethau cymdeithasol.
3. Cyfraniad gwasanaethau cymdeithasol at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol.
4. Dulliau gweithredu'r awdurdod lleol wrth gyflwyno gwelliannau mewn gwasanaethau cymdeithasol gan ddefnyddio prosesau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.
5. Effeithiolrwydd arweinyddiaeth wleidyddol wrth gydnabod gwerth y gwasanaethau cymdeithasol, eu cynrychioli a phennu cyfeiriad ar eu cyfer.
6. Effeithiolrwydd y trefniadau gwleidyddol wrth graffu ar berfformiad a sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd.
7. Dealltwriaeth yr aelodau etholedig o flaenoriaethau gwasanaethau cymdeithasol allweddol.
8. Perfformiad aelodau etholedig wrth gyflawni eu cyfrifoldebau wrth wneud penderfyniadau pwysig.
9. I ba raddau y mae gwaith corfforaethol a thrawsbynciol yn llwyddo i gyflwyno'r agenda gofal cymdeithasol.

10. I ba raddau y mae'r awdurdod yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys asiantaethau sy'n bartneriaid, y sector gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr.

11. Gweithio ar lefel gorfforaethol er mwyn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a staff.

Cysyniadau allweddol

Ffurfio a gweithredu strategaethau yn effeithiol; rhoi arweiniad; craffu; blaenoriaethu; rheoli ar lefel gorfforaethol; canlyniadau y disgwylir eu gweld ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau; cyfraniad rhanddeiliaid; ymgysylltu â blaenoriaethau a chynlluniau cenedlaethol; perchenogi problemau

Y sail ar gyfer ffurfio barn

- A oes cysylltiad rhwng amcanion y gwasanaeth ac amcanion corfforaethol?
- Ansawdd y broses o wneud penderfyniadau.
- A yw trefniadau rheoli corfforaethol yn cael effaith ar y modd y rheolir gwasanaethau cymdeithasol?
- Pa mor dda mae'r arweinyddiaeth wleidyddol yn gwerthfawrogi, cynrychioli a phennu cyfeiriad y gwasanaethau cymdeithasol?
- Pa mor effeithiol yw'r trefniadau gwleidyddol am graffu ar berfformiad ac am fod yn atebol i'r cyhoedd?
- Ymwybyddiaeth ymhlith aelodau a rheolwyr corfforaethol o'r cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol gan yr awdurdod lleol.
- I ba raddau y mae ymdrechion ar lefel gorfforaethol yn cyfrannu at gyflwyno agenda'r awdurdod ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.
- I ba raddau y llwyddir i ddal ati i ganolbwyntio ar yr hyn sydd o'r pwys pennaf.